# Adeiledd yr atom


Mae deall **adeiledd atomig** yn ein helpu i egluro pam mae **elfennau** yn ymddwyn fel y gwnânt a pham maent yn ffurfio mathau gwahanol o sylweddau. Rydym yn defnyddio **model planedol** i ddisgrifio adeiledd atom.

## Y tabl cyfnodol

Mae rhif y **grŵp** yn dweud wrthym sawl **electron** sydd ym **mhlisgyn allanol** atom ac mae'r rhif **cyfnod** yn cyfateb i'w nifer o **blisg electronau**.

## Plisg electronau

Mae'r **plisgyn cyntaf** yn dal hyd at 2 **electron**; a'r **ail blisgyn** yn dal hyd at 8. Gall y **trydydd plisgyn** ddal hyd at 18 **electron** ond rydym yn canolbwyntio ar **is-blisgyn** y tu mewn iddo, sy'n cynnwys hyd at 8 **electron**.




## Rhif atomig

Y **rhif atomig** sy'n pennu hunaniaeth atom. Mae pob atom o **elfen** benodol yn cynnwys yr un nifer o **brotonau**.

## Rhif màs

Y **rhif màs** yw nifer y **protonau** a'r **niwtronau**. Gall nifer y **niwtronau** amrywio ar gyfer **elfen** benodol.

## Gronynnau is-atomig

Mae'r **protonau** (sydd â gwefr bositif) a'r **niwtronau** (niwtral) i'w canfod yn y **niwclews** yng nghanol yr atom. Mae'r **electronau** (sydd â gwefr negatif) yn orbitio'r **niwclews** mewn **plisg** (lefelau egni).

education in chemistry
rsc.li/4kBzB93